

Adrodd i rieni/gofalwyr – Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî

Cyflwyniad

Fel ysgol newydd sy'n tyfu, mae staff yn Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî yn myfyrio'n gyson ar ein datganiad cenhadaeth ac egwyddorion ein gweledigaeth i sicrhau eu bod yn parhau'n sylfeini ar gyfer ein diben strategol a datblygiad ein cwricwlwm. Gyda'i gilydd, mae egwyddorion ein gweledigaeth, cynllun ein cwricwlwm a dysgu a datblygiad proffesiynol (PLD) yn cyd-asio i'n helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae pob elfen yn rhyngddibynnol ac yn hyblyg wrth ymateb i anghenion ein cymuned gynyddol ac i wybodaeth o'r broses ddiwygio. Ystyriwn asesu yn hollbwysig i gynllun ein cwricwlwm. Ei ddiben o fewn ein cwricwlwm yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.

Y cyd-destun gwreiddiol

Mae galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd yn dibynnu ar athrawon sy'n fedrus dros ben am nodi cryfderau dysgwyr, y ffyrdd y maen nhw'n dysgu a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Ym Mharc Jiwbilî credwn fod gennym gydgyfrifoldeb i sicrhau bod dysgwyr wrth galon ein prosesau asesu. Nid ydym am wneud penderfyniadau 'untro' yn seiliedig ar set o ddisgrifyddion neu feini prawf a chynnal asesiadau sydd wedi'u llunio 'ar gyfer' dysgwyr. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu prosesau ac arferion sy'n sicrhau bod gennym ni ddarlun cyfannol o bob dysgwr, gyda dysgwyr yn cymryd rhan weithgar.

Trawsnewid

Mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu tuag at y pedwar diben, gan sicrhau cynnydd priodol i bob dysgwr. Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer ac yn darparu profiadau dysgu effeithiol sy'n briodol i oedran a datblygiad pob dysgwr unigol. Trwy drafod a rhoi adborth, mae dysgwyr yn gallu gwerthfawrogi lle maen nhw arni o ran eu dysgu, lle maen nhw angen ei gyrraedd ac yn hollbwysig, sut byddan nhw'n gwneud hynny. Mae ymarferwyr yn cefnogi a herio yn effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.

Mae ein ffocws ar iaith ddysgu, neu 'alluoedd dysgwyr' fel y cyfeirir atyn nhw yma yn ein hysgol, yn cynnwys a chefnogi plant ar eu taith ddysgu. Addysgir sgiliau a rhinweddau i blant sy'n gweithredu fel galluoedd pwysig iddyn nhw fel dysgwyr ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mae galluoedd dysgwyr yn cefnogi dealltwriaeth metawybyddol y plant ac yn eu galluogi i fedru mynegi eu dysgu. Mae hyn yn galluogi plant i gyfrannu a chyfranogi yn y broses ddysgu, gan gynnwys, yn bwysig dros ben, gwybod 'beth i'w wneud pan nad ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud'.

I gefnogi datblygiad galluoedd ein dysgwyr, mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn adborth a gwaith myfyrio ar eu dysgu. Mae adolygiadau dysgu disgyblion (PLRs) bob hanner tymor yn darparu amser pwrpasol y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth i athrawon a dysgwyr gydweithio i drafod cynnydd, nodi unrhyw rwystrau a chytuno ar dargedau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae PLRs wedi effeithio'n fawr ar allu dysgwyr i gyfleu ble yn union y maen nhw ar eu taith ddysgu. Maen nhw wedi rhoi dirnadaeth go iawn i athrawon ar ymddygiadau dysgu dysgwyr ac yn gyfle i gydfyfyrio ar ddysgu ac addysgu. Mae'r ymddygiadau sy'n cael eu sefydlu a'u datblygu o fewn PLR yn cael eu mireinio ymhellach yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae gallu disgyblion i hunanfyfyrio, rhoi adborth i gyfoedion ac ymateb i adborth athrawon yn cael ei gefnogi gan eu sgiliau metawybyddol sy'n datblygu. Mae pwysigrwydd cyfathrebu a deialog o ansawdd yn amlwg. Mae adborth sy'n galluogi dysgwyr i gymryd mwy o reolaeth dros eu dysgu ac yn cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr cadarn yn hollbwysig i'w cynnydd. Mae hyn heb os wedi effeithio'n gadarnhaol ar les ac ar lefelau ymgysylltu â dysgu.

Adrodd ar hyn o bryd

Mae rhoi dysgwyr wrth galon yr asesu'n dibynnu ar brosesau clir yn yr ysgol. Mae angen i ddulliau asesu alluogi staff i drafod cynnydd yn rheolaidd. Mae PLD yn gyfrwng ar gyfer trafodaethau o'r fath er mwyn sicrhau dulliau cyson. Mae'r holl staff, athrawon a chynorthwyr dysgu yn ymgysylltu â PLD er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r sgiliau i nodi ymhle mae dysgwyr arni a sut gallan nhw eu cefnogi i symud ymlaen o ran y pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad. Hefyd, dydy'r cyfarfodydd i drafod cynnydd disgyblion (dan arweiniad y pennaeth) ddim yn canolbwyntio ar ddeilliannau neu lefelau fel ffordd o nodi cynnydd ond ar ddeialog – deialog dan arweiniad yr athro, lle maen nhw'n nodi cynnydd dysgwyr yn ôl:

- y pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad
- rhwystrau sy'n rhwystro dysgwr rhag dysgu
- y gefnogaeth a'r her y mae athrawon yn eu cynnig.

Mae hyn yn arwain at ddarlun holistaidd o bob dysgwr ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cydnabod am eu cyflawniadau yn hytrach nag am fodloni disgrifyddion lefel neu ddeilliannau penodol.

Adborth

Mae PLRs yn rhoi'r cyfle i rieni/gofalwyr drafod cynnydd eu plant. Mae trafodaethau yn canolbwyntio ar les, eu hagwedd at ddysgu ac ymddygiadau. Mae rhieni/gofalwyr yn trafod cynnydd eu plant tuag at y pedwar diben a chynnydd o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Mae sgysiau am ddysgu y PLRs yn cael eu trafod hefyd gyda rhieni/gofalwyr, gan gynnwys trafodaeth am unrhyw rwystrau dysgu ynghyd â thargedau y mae'r plant yn canolbwyntio arny'n nhw. Ym Mlynnyddoedd 5 a 6 mae plant yn mynychu eu PLRs ac yn cymryd rhan lawn yn y sgwrs ddysgu law yn llaw â'u rhieni/gofalwyr a'u hathro. Mae'r cyfathrebu hwn gyda rhieni/gofalwyr wedi bod yn werthfawr wrth i ni symud i gyfnod o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell; mae rhieni/cyflogwyr yn fwy ymwybodol o sut mae eu plant yn dysgu a'r ffordd orau o'u cefnogi.

Cynnydd a phartneriaeth, lles a llwyth gwaith

Mae ein dull o roi dysgwyr wrth galon asesu wedi cefnogi ymhellach ein prosesau pontio yn yr ysgol. Mae cyfarfodydd pontio gyda'n hysgol uwchradd leol wedi canolbwyntio ar blant yn hytrach nag ar lefelau. Dydy athrawon ddim wedi trafod y lefelau sydd wedi'u cyrraedd, ond wedi ffocysu ar y plant fel dysgwyr – gan nodi sut mae plant yn dysgu orau, yr amgylchedd dysgu y maen nhw wedi'i brofi, eu cryfderau a meysydd i'w datblygu, ynghyd ag unrhyw rwystrau dysgu sydd ganddyn nhw o bosibl. Mae athrawon wedi dweud bod y ffocws newydd hwn wedi sicrhau bod gan staff yr ysgol uwchradd well dealltwriaeth o bob dysgwr unigol a dealltwriaeth berthnasol, ddilys a mwy effeithiol o gynnydd a chyflawniad pob dysgwr unigol. Mae dysgwyr yn fwy nag enwau a rhifau ar restr, maen nhw'n cael eu hadnabod fel plant. Mae'r un ffocws ar sgysiaiu yn cefnogi prosesau pontio o fewn yr ysgol hefyd. Mae blaenoriaethu dysgu yn sicr yn cefnogi datblygiad lles ein plant a'n staff.

Symud ymlaen

Wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol, mae'n hollbwysig bod rôl asesu yn cael ei gweld fel un sy'n cefnogi dysgwyr, nid eu profi. Mae angen i ni ddarparu strategaethau i'n dysgwyr a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen i'n dysgwyr fod yn gadarn, er mwyn gallu ymateb i'r newidiadau mewn addysg ac ymgysylltu â ffordd newydd o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Mae angen cefnogi ymarferwyr drwy PLD o'r radd flaenaf fel bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gynnydd wrth ddysgu. Mae gennym gyfle, fel arweinwyr ac ymarferwyr, i osgoi dychwelyd at yr hen gwricwlwm a threfniadau asesu ond yn hytrach i symud ymlaen a rhoi dysgwyr wrth galon ein prosesau asesu fel y gallan nhw fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr cadarn sy'n barod i ffynnu.